# Cemeg feintiol

Mae datrys diffiniadau yn ffordd hwyliog o brofi a chyfnerthu dealltwriaeth y dysgwyr o dermau allweddol a'u diffiniadau. Dywedwch wrth y dysgwyr roi'r diffiniadau at ei gilydd a defnyddio'u dealltwriaeth o'r termau i gwblhau brawddegau. Mae'r atebion ar gael isod ac yn cael eu darparu ar ffurf sleidiau hefyd. Fel y modelau Frayer cysylltiedig, mae datrys diffiniadau yn ymchwilio i ddealltwriaeth y dysgwyr ac yn targedu'r termau anoddach yn y rhestr o dermau allweddol.

## Syniadau ar gyfer addasu

Integreiddiwch sgiliau siarad a gwrando yn y gweithgaredd hwn:

- Argraffwch y grid datrys diffiniadau a thorri o amgylch y blychau unigol. Bydd y dysgwyr yn cymryd blwch yr un ac yn trefnu eu hunain – fel dosbarth neu grŵp – yn ôl y gwahanol ddiffiniadau. Pan fydd pawb yn barod, bydd pob dysgwr yn darllen ei ran ei hun o'r diffiniad yn ei dro.
- Fel addasiad cyflymach o'r dasg, ystyriwch gynnal gweithgaredd 'meddwl, paru, rhannu' lle mae'r dysgwyr yn trafod ac yn penderfynu ar y diffiniadau cywir mewn parau neu grwpiau bach.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y sleid cwblhau'r cysylltiad yn llawn

Rhowch fwy o gymorth drwy gysylltu'r term yng ngholofn A â'r cofnod cywir yng ngholofn B ac efallai'r cofnod yng ngholofn B â'r cofnod cywir yng ngholofn C, ar gyfer yr ychydig dermau allweddol cyntaf yn y grid.

Darllenwch fwy am ddatrys diffiniadau a'u defnydd yn rsc.li/3Gda32t

## Atebion

Mae'r rhain hefyd ar gael ar y sleidiau cysylltiedig.

### Diffiniadau wedi'u datrys

Mae **adweithydd cyfyngol** yn cael ei ddefnyddio i gyd mewn adwaith cemegol, sydd felly'n cyfyngu ar faint o gynhyrchion y gellir eu ffurfio.

Nid yw **gormodedd adweithydd** yn cael ei ddefnyddio i gyd mewn adwaith cemegol oherwydd bod adweithydd arall wedi rhedeg allan yn gyntaf.

**Economi atomau** yw màs y cynnyrch a geisir fel canran o gyfanswm màs yr adweithyddion, mewn hafaliad symbolau cytbwys.

**Cyfansoddiad canrannol** yw màs cymharol atom(au) un elfen mewn cyfansoddyn, a roddir fel canran o'r màs fformiwla cymharol.

**Môl (mol)** yw uned swm y sylwedd, pan mai un môl yw'r swm sy'n cynnwys 6.02 x $10^{23}$ (rhif Avogadro) atom, moleciwl neu uned fformiwla.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

**Rhif Avogadro** yw'r rhif 6.02 x $10^{23}$, sef nifer yr atomau, moleciwlau neu unedau fformiwla mewn un môl o'r sylwedd.

**Diweddbwynt** mewn titradiad yw'r union gyfaint a ychwanegwyd pan fydd y dangosydd yn newid lliw.

**Titr** yw cyfaint yr hydoddiant a ychwanegir o'r fwred sydd ei angen i gyrraedd y diweddbwynt.

### Atebion Cwblhau'r cysylltiad

Dylai'r dysgwyr ddewis rhes D fel y cysylltiadau cywir ar gyfer y frawddeg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **D** | o ganlyniad i'r | o'r herwydd | fodd bynnag |

Brawddegau wedi'u cwblhau:

Mewn titradiad, mae adwaith niwtralu yn digwydd, a phennir y diweddbwynt **o ganlyniad i'r** dangosydd yn newid lliw. Mae'r titr yn caniatáu i ni gyfrifo nifer y molau o'r cemegyn yn y fwred sydd **o'r herwydd** yn ein galluogi i gyfrifo nifer y molau yn yr hydoddiant sydd â chrynodiad anhysbys. **Fodd bynnag**, os eir dros y diweddbwynt, bydd gormodedd adweithydd ar ôl a bydd darlleniad y titr yn anghywir.

## Adnoddau cymorth eraill ar gyfer termau allweddol

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r cymorth termau allweddol ar gyfer pwnc **cemeg feintiol**. Mae'r adnoddau cysylltiedig canlynol ar gael yn rsc.li/3Gi9HHN:

- Rhestr o'r termau allweddol – geirfa wedi'i dewis yn ofalus, gyda diffiniadau. Bydd y dysgwyr yn dod ar draws y termau wrth astudio'r pwnc hwn yn y cyfnod allweddol hwn
- Geirfa hygyrch – mae'n ehangu ar y rhestr termau allweddol gyda diagramau, enghreifftiau, canllawiau ynganu a mwy
- Modelau Frayer – ffordd i'r dysgwyr drefnu eu dealltwriaeth o ddarn newydd o eirfa drwy weithio drwy bedwar pedrant cysyniadol: archwilio, dadansoddi, egluro, cyfnerthu.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol